



Raffl Nadolig #Rhoi70 - Telerau ac Amodau

Diolch am gefnogi eich Elusen GIG yng Ngogledd Cymru. Mae'r telerau ac amodau hyn yn cyfeirio at gymryd rhan yn Raffl Nadolig #Rhoi70 Awyr Las.

1. Awyr Las/Blue Sky yw Elusen GIG Gogledd Cymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1138976
2. Mae cymryd rhan yn y raffl yn costio £1 fesul tocyn raffl a £5 y llyfr. Gellwch brynu mwy nac un tocyn, ond mwyafswm nifer y tocynnau gall unrhyw unigolyn brynu yw cant (£100) ym mhob raffl. Rhaid gwneud taliadau i fod yn rhan o'r raffl cyn dyddiad tynnu'r raffl. Bydd unrhyw daliadau a wneir ar ôl dyddiad tynnu'r raffl yn cael eu trin fel rhoddion.
3. Bydd tocynnau ar werth o 14 Medi 2018.
4. Ni ellir gwerthu tocynnau i rai dan 16 oed, nac ar eu rhan nac ar eu cyfer.
5. Os bydd tocyn yn cael ei werthu heb yn wybod i unigolyn dan 16 oed, ar ei ran neu ar ei gyfer, bydd ef/hi yn cael ei eithrio o'r raffl a bydd yn fforffedu ei wob a bydd y siawns yn cael ei ddychwelyd.
6. Mae Raffl Nadolig #Rhoi70 Awyr Las 2018 ar agor i holl breswylwyr y DU dros 16 oed, heblaw am aelodau o Dîm Cefnogi Codi Arian Awyr Las sydd â rhan uniongyrchol yn y raffl, eu hasiantaethau a chwmniau eraill sydd â rhan uniongyrchol yn y gwaith o redeg y raffl.
7. I allu prynu tocynnau raffl ar lein, rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan fod yn breswylwyr yn y Deyrnas Unedig ac yn 16 oed neu hŷn.
8. Gellir cymryd rhan yn y raffl hon yn uniongyrchol gyda chodwyr arian, wardiau/gwasanaethau ac adrannau sy'n cymryd rhan neu ddychwelyd bonion tocynnau yn y post i Dîm Cefnogi Codi Arian Awyr Las, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2PW gyda'r taliad priodol (siec yn daladwy i Awyr Las Gogledd Cymru neu Blue Sky North Wales) neu mewn arian parod i swyddfeydd cyffredinol yr ysbyty. Gellir prynu tocynnau hefyd ar y wefan www.awyrlas.org.uk/raffle <<http://www.awyrlas.org.uk/raffle>> drwy ddolen

Dyddiad cau tocynnau raffl 7 Rhagfyr 2018

Dyddiad tynnu'r raffl 14 Rhagfyr 2018



JustGiving, gyda thaliad cerdyn credyd neu ddebyd, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn derbyn e-bost gyda'u rhifau tocynnau yn uniongyrchol gan gynrychiolydd Awyr Las. Mae'n bosibl bydd rhai darparwyr cardiau credyd yn codi blaenffi arian parod ar gyfer taliadau tocynnau raffl. Gwiriwch gyda'ch darparwr cyn talu am docynnau raffl gan ddefnyddio'r dull hwn.

9. Dyddiad cau ar gyfer derbyn tocynnau raffl a thaliadau raffl yw 7 Rhagfyr 2018. Mae'n bosibl na ellir cynnwys unrhyw docynnau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn y raffl ac fe'u hystyrir fel rhodd i'r elusen.
10. Bydd tocynnau'n cael eu cynnwys yn y raffl pan fydd y taliad llawn wedi'i dderbyn yn unig.
11. Bydd yr arian a godir gan Raffl Nadolig #Rhoi70 Awyr Las 2018 yn cefnogi gwaith yr elusen drwy ei 300+ o gronfeydd gwahanol sy'n cefnogi ysbytai/wardiau/adrannau a gwasanaethau ledled Gogledd Cymru. Bydd tocynnau a werthir ar wardiau/adrannau/gwasanaethau neu drwyddynt yn mynd tuag at y gwasanaethau penodol hynny.
12. Nid yw Awyr Las yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am docynnau coll, wedi'u difrodi, yn annarllenadwy neu na ellir adnabod yr enillydd oddi wrthynt, nac am unrhyw fethiant technegol neu ddigwyddiad a allai achosi i'r gystadleuaeth gael ei difetha neu ei llygru.
13. Bydd y raffl yn cael ei thynnu ar 14 Rhagfyr 2018 yn Ysbyty Maelor Wrecsam.
14. Tynnir y tocynnau raffl ar hap. Bydd yr holl docynnau ar lein yn cael eu rhoi yn y brif raffl fel tocynnau papur ochr yn ochr â'r holl docynnau papur eraill.
15. Cadwch y tocyn neu rif a ddyrennir fel prawf o bryniant.
16. Cysylltir ag enillwyr dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. Bydd gwobrau ar gael i'w casglu o swyddfa gyffredinol briodol mewn ysbyty. Os na all enillwyr gasglu eu gwobrau, byddant yn cael eu cadw mewn swyddfa gyffredinol ysbyty er mwyn gwneud trefniadau cyfleus eraill.
17. Gall gwobrau a gyhoeddwyd amrywio ychydig yn sgil diffyg argaeledd neu yn ôl doethineb yr elusen.

Dyddiad cau tocynnau raffl 7 Rhagfyr 2018
Dyddiad tynnu'r raffl 14 Rhagfyr 2018



18. Os na fydd Awyr Las yn gallu cysylltu ag enillydd ac os na chaiff gwobr ei hawlio am dri mis yn dilyn ymgais gyntaf Awyr Las i roi gwybod i'r enillydd, gall Awyr Las ddefnyddio'r wobr fel y gwêl yn addas, yn cynnwys ail gynnig y wobr mewn rafflau yn y dyfodol. Cedwir gwobrau sydd â chyfyngiadau dyddiad neu sy'n cynnwys nwyddau darfodus am gyfnodau byrrach a'u hail-ddyrannu yn ôl doethineb yr elusen.
19. Mae'n ofynnol i'r holl enillwyr gydweithredu â hawl Awyr Las i gyhoeddi'r canlyniad fel bo'n briodol ac i roi prawf o oedran ar gais.
20. Os bydd camgymeriad, sut bynnag y digwyddodd, boed yn gamgymeriad argraffu neu arall a boed yn amlwg neu fel arall, sy'n effeithio ar y gystadleuaeth mewn unrhyw ffordd, mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i weinyddu'r raffl fel pe na bai dim camgymeriad wedi digwydd. Os yw'n briodol gan y trefnwyr a/neu'n ymarferol, bydd Awyr Las yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y camgymeriad.
21. Cyhoeddir rhestr o enillwyr ar wefan Awyr Las o 18 Rhagfyr 2018 ac ar gael ar gais drwy ffonio 01248 384395.
22. Gall methu â chydymffurfio â'r rheolau hyn arwain at ddiarddel y tocyn raffl. Mae Awyr Las yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw docyn yn ôl eu disgrisiwn llwyr.

Gwybodaeth arall

Trwyddedwyd gan [Gomisiwn Hapchwarae Prydain Fawr](#) gan Deddf Hapchwarae 2005. Rhif Elusen Cofrestredig 1138976. Deilydd y drwydded:

Kirsty Thomson
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
LL57 2PW

Hapchwarae cyfrifol

Rydym wedi ymrwymo i weithredu ein rafflau mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae Awyr Las yn falch o fod yn aelod o'r Rheoleiddiwr Codi Arian.

Dyddiad cau tocynnau raffl 7 Rhagfyr 2018
Dyddiad tynnu'r raffl 14 Rhagfyr 2018